

BWRDD
YR IAITH
GYMRAEG



WELSH
LANGUAGE
BOARD

Bwrdd yr Iaith Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair, Caerdydd CF10 1AT
Ffôn: +44 (0)29 2087 8000
Ffacs: +44 (0)29 2087 8001
e-bost: ymholiadau@bwrdd-yr-iaith.org.uk
Safle gwe: www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

Welsh Language Board
Market Chambers
5-7 St Mary Street, Cardiff CF10 1AT
Telephone: +44 (0)29 2087 8000
Fax: +44 (0)29 2087 8001
e-mail: post@welsh-language-board.org.uk
Website: www.welsh-language-board.org.uk



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government
CORFF NODDEDIG | SPONSORED BODY

BWRDD
YR IAITH
GYMRAEG



WELSH
LANGUAGE
BOARD



Adroddiad Blynyddol • Annual Report

Hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r iaith Gymraeg
Promoting and facilitating the use of the Welsh language

2001 - 2002

PIGION 2001-02

Y Blynyddoedd Cyntaf

- Lansio Cynllun TWF
- Dosbarthu gwybodaeth ar ddwyieithrwydd i bob mam newydd yng Nghymru
- Cefnogi gwaith Mudiad Ysgolion Meithrin

Ieuenctid

- Goruchwylio paratoi a gweithredu Cynlluniau Addysg Gymraeg
- Cytuno tri Chynllun Addysg Gymraeg newydd
- Dyrannu bron i £2.2 miliwn mewn grantiau i hybu addysg Gymraeg a dwyieithog
- Golygu a chysoni deunyddiau dysgu Cymraeg
- Cefnogi gwaith Urdd Gobaith Cymru
- Annog mudiadau sy'n derbyn grant i gynyddu eu pwyslais ar weithgareddau i ieuenctid
- Cyflwyno adroddiad ar y ddarpariaeth addysg anghenion arbennig i'r Cynulliad
- Llunio a dosbarthu deunyddiau hyrwyddo dwyieithrwydd i ysgolion a cholegau
- Hyrwyddo addysg drochi, ac agweddau eraill ar addysg Gymraeg

Y Gymuned

- Dyrannu bron i £2.9 miliwn dan y Prif Gynllun Grantiau, gan gynnwys dros £650,000 i'r mentrau iaith
- Sefydlu Pwyllgor Ymgynghorol Cenedlaethol rhwng y mentrau iaith a'r Bwrdd
- Dechrau'r gwaith o sefydlu mewnwydd i'r mentrau
- Lansio Cynllun Datblygu Ardal Abergwaun
- Herio cynlluniau rhai awdurdodau o ran codi tai mewn ardaloedd Cymraeg
- Hybu dwyieithrwydd yn rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd
- Dyrannu £10,000 o grantiau bach i gwmnïau preifat a mudiadau gwirfoddol

Byd Gwaith

- Cynorthwyo Microsoft i lansio gwirwydd sillafu Cymraeg
- Cynyddu'r ddarpariaeth Cymraeg yn y Gweithle
- Cefnogi canolfan *Sgiliaith* i hybu addysg alwedigaethol a hyfforddiant dwyieithog
- Cynnal ymgyrch – oedd yn cynnwys hysbyseb ar y teledu - i gynyddu ymwybyddiaeth o *Iaith Gwaith*
- Cynnal y gystadleuaeth Gwobrau Dylunio Dwyieithog
- Cynnal gwasanaeth ymgynghorol ar safoni termau ac enwau lleoedd

HIGHLIGHTS 2001-02

The First Years

- Launched the TWF project
- Distributed information on bilingualism to every new mother in Wales
- Supported the work of Mudiad Ysgolion Meithrin

Youth

- Oversaw the preparation and implementation of Welsh Education Schemes
- Agreed three new Welsh Education Schemes
- Distributed nearly £2.2 million in grants to promote Welsh medium and bilingual education
- Edited and standardised materials for teaching Welsh
- Supported the work of Urdd Gobaith Cymru
- Encouraged bodies receiving grant to increase their emphasis on youth activities
- Presented a report on special educational needs provision to the Assembly
- Produced and distributed materials to schools and colleges to promote bilingualism
- Promoted immersion education, and other aspects of Welsh medium and bilingual education

The Community

- Distributed nearly £2.9 million under the Main Grants Scheme, including over £650,000 to the mentrau iaith
- Established a National Advisory Committee between the mentrau iaith and the Board
- Began work on setting up an intranet for the mentrau
- Launched the Fishguard Area Development Project
- Challenged the plans of some authorities in relation to building houses in Welsh speaking areas
- Promoted bilingualism in the European Structural Funds programmes
- Distributed over £10,000 in small grants to private companies and voluntary bodies

The Workplace

- Helped Microsoft to launch a Welsh language spellchecker
- Increased Welsh in the Workplace provision
- Supported the *Sgiliaith* centre to promote bilingual vocational education and training
- Conducted a campaign – which included a television advertisement - to increase awareness of *Iaith Gwaith*
- Held the Bilingual Design Awards competition
- Ran an advisory service on standardising terms and place-names



	Rhagair	1-3	Foreword
Y Blynyddoedd Cyntaf		4-7	The First Years
	Ieuentid	8-11	Youth
	Y Gymuned	12-15	Community
	Byd Gwaith	16-19	The Workplace
	Derbyn Gwasanaeth	20-23	Receiving Services
	Hamdden	24-26	Leisure
	Meithrin Cysylltiadau	27-29	Fostering Links
	Datganiad Ariannol Cryno	30-33	Summary Financial Statement
	Atodiad 1 Cefndir	34-36	Annex 1 Background
	Atodiad 2 Asesiad o berfformiad	37	Annex 2 Performance assessment
	Atodiad 3 Grantiau	38-39	Annex 3 Grants
	Atodiad 4 Cynlluniau Iaith Gymraeg	40	Annex 4 Welsh Language Schemes

Rhagair Foreword

Mae’n bleser gennym gyflwyno wythfed adroddiad blynyddol Bwrdd yr Iaith Gymraeg, sy’n rhoi darlun o’n gwaith dros y cyfnod 1 Ebrill 2001 i 31 Mawrth 2002.

Prin fu’r Gymraeg allan o’r penawdau – er nad oedd y trafod bob amser yn oleuedig. Heb os, ysgogwyd y diddordeb yn bennaf gan benderfyniad Pwyllgor Diwylliant y Cynulliad Cenedlaethol i gynnal adolygiad cynhwysfawr o’r iaith. Cafwyd cyfle i bawb fynegi barn, ac edrychwn ymlaen dros y misoedd nesaf i gydweithio gyda’r Llywodraeth a’n holl bartneriaid i weithredu ar ran y Gymraeg.

Y Bwrdd oedd y corff cyntaf i roi tystiolaeth i’r adolygiad hwn, ar ffurf cyflwyniad llafar a phapur cynhwysfawr oedd yn gosod allan beth y dylid ei gynnwys mewn strategaeth i gyrraedd y nod o greu Cymru ddwyieithog. Ymysg ein hargymhellion oedd:

- trin dwyieithrwydd yn y Cynulliad fel rhan o’r agenda cyfle cyfartal, ar draws pob maes polisi, a sefydlu uned fewnol i oruchwylio’r gwaith;

- annog pob corff y mae’r Cynulliad yn ei noddi i fabwysiadu’r un egwyddor, a’i gweithredu;

- archwilio gwir botensial y ddeddfwriaeth sy’n bodoli’n barod;

- cynnal arolwg cynhwysfawr o’r diffygion o ran casglu data ar y Gymraeg;

- hybu ymgyrch genedlaethol i farchnata dwyieithrwydd.

Yn gryno – llawer mwy o gydweithio deallus a threfnus ar draws ein sefydliadau i sicrhau fod pawb yn deall yn well fod cynnal iaith yn rhan o gynladwyedd ein cymunedau, a bod pob cymuned yn derbyn y sylw ieithyddol priodol. Mae’r iaith yn iaith genedlaethol: mae gan bob cymuned hawl iddi, a dylai neb, drwy air na gweithred, wadu’r hawl hwnnw.

Mae nifer o bethau addawol wedi codi o’r adolygiad, yn arbennig wrth i bwyllgorau eraill y Cynulliad ystyried y Gymraeg yng nghyd-destun eu swyddogaethau. Da, er enghraifft, oedd gweld y Pwyllgor Datblygu Economaidd yn cydnabod y gydberthynas rhwng iaith a datblygu economaidd, a’r angen i wneud mwy ohoni; da hefyd oedd gweld y Pwyllgor Cyfle Cyfartal yn cydnabod fod derbyn gwasanaethau yn iaith eich dewis yn haeddu lle canolog ar yr agenda cyfle cyfartal, rhywbeth y mae’r Bwrdd wedi bod yn ei bwysleisio ers blynyddoedd. Mae’r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Sue Essex AC, hefyd wedi mynd i’r afael â sawl mater fu’n ddraen yn yr ystlys yn y maes tai a chynllunio, ac mae hyn i’w groesawu’n ogystal.

Receiving Services

- Oversaw the preparation and implementation of Welsh Language Schemes
- Agreed 32 new Welsh Language Schemes in the public sector, and six voluntary Language Schemes
- Reviewed Welsh language services in the public sector by monitoring Language Schemes
- Persuaded the British Government to allow bilingual registration of births and deaths outside Wales
- Provided guidance and advice to private companies and voluntary bodies on using the Welsh language
- Targeted over 1,600 small and medium sized companies with appropriate marketing material
- Produced guidelines for businesses on bilingual marketing - in five European languages

Leisure

- Supported the Welsh for Adults field
- Supported the work of the National Eisteddfod
- Conducted marketing campaigns targeted at hospitality businesses and the tourism industry
- Encouraged food producers to package their produce bilingually – in collaboration with the WDA

Fostering links

- Provided advice to the Assembly’s Review of the Welsh Language
- Responded to consultation documents, such as *Plan for Wales 2001* and *The Learning Country*
- Contributed to various national initiatives, such as *Cymru’n Creu* and *Cymru Ar-lein*
- Provided advice on a wide range of subjects – from health to education, from planning to charities
- Collaborated with other equal opportunities bodies to promote the linguistic dimension
- Circulated news through *Bwletin*, and through over 60 press releases
- Published and distributed leaflets on various aspects of the Board’s work
- Arranged and developed exhibitions
- Held six meetings of the Board across Wales
- Supported the Link Line to Welsh service
- Supported the work of the Association of Welsh Translators and Interpreters
- Established a network of European Language Boards

Derbyn Gwasanaeth

- Goruchwylio paratoi a gweithredu Cynlluniau Iaith Gymraeg
- Cytuno 32 Cynllun Iaith Gymraeg newydd yn y sector cyhoeddus, a chwe Chynllun Iaith gwirfoddol
- Adolygu gwasanaethau Cymraeg yn y sector cyhoeddus drwy fonitro Cynlluniau Iaith
- Perswadio Llywodraeth Prydain i ganiatáu cofrestru genedigaethau a marwolaethau yn ddwyieithog y tu allan i Gymru
- Darparu arweiniad a chyngor i gwmnïau preifat ac i fudiadau gwirfoddol ar ddefnyddio’r Gymraeg
- Targedu dros 1,600 o gwmnïau bach a chanolig gyda deunyddiau marchnata priodol
- Cynhyrchu canllawiau i fusnesau ar farchnata dwyieithog - mewn pum iaith Ewropeaidd

Hamdden

- Cefnogi’r maes Cymraeg i Oedolion
- Cefnogi gwaith yr Eisteddfod Genedlaethol
- Cynnal ymgyrchoedd marchnata wedi eu targedu at fusnesau arlwyo a’r diwydiant twristiaeth
- Annog cynhyrchwyr bwyd i becynnu eu cynnyrch yn ddwyieithog – ar y cyd ag Awdurdod Datblygu Cymru

Meithrin cysylltiadau

- Darparu cyngor i Adolygiad y Cynulliad o’r iaith Gymraeg
- Ymateb i ddogfennau ymgynghorol, fel *Cynllun i Gymru 2001* ac *Y Wlad sy’n Dysgu*
- Cyfrannu i wahanol ymgyrchoedd cenedlaethol, fel *Cymru’n Creu a Cymru Ar-lein*
- Darparu cyngor ar amrediad eang o bynciau – o iechyd i addysg, o gynllunio i elusennau
- Cydweithio gyda chyrff cydraddoldeb eraill i hybu’r dimensiwn ieithyddol
- Cylchredeg newyddion drwy *Bwletin*, a thrwy 60 o ddatganiadau i’r wasg
- Cyhoeddi a dosbarthu taflenni ar wahanol agweddau o waith y Bwrdd
- Trefnu a datblygu arddangosfeydd
- Cynnal chwe chyfarfod o’r Bwrdd ar hyd a lled Cymru
- Cynnal y gwasanaeth Llinell Gyswilt â’r Gymraeg
- Cefnogi gwaith Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru
- Sefydlu rhwydwaith o Fyrddau Iaith Ewrop

Ym mis Ionawr eleni, cyflwynodd y Bwrdd dystiolaeth i Bwyllgor Addysg Gydol Oes y Cynulliad fel rhan o'r adolygiad o'r Gymraeg. Yn y dystiolaeth honno, nodwyd nifer o'r anghenion o ran y Gymraeg yn y maes addysg, gan gynnwys:

- gwella dilyniant ieithyddol, o addysg gynradd cyfrwng Cymraeg hyd at addysg gydol oes;
- ehangu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg i blant o dan 5 oed, y sector ôl 16, a'r maes Cymraeg i Oedolion;
- rhoi cyfle cyfartal ieithyddol i blant ag anghenion arbennig;
- llunio diffiniad clir o'r hyn a olygir wrth ysgolion cyfrwng Cymraeg;
- edrych yn fanylach ar ddarparu addysg drochi cyfrwng Cymraeg i bawb sy'n dymuno hynny i'w plant – rhywbeth y mae'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, Jane Davidson AC, wedi ei gymeradwyo'n ddiweddar.

Addysg, wrth gwrs, fu un o gonglfeini twf yn nhermau'r iaith. Rydym yn gadarn o'r farn fod yn rhaid wrth strategaeth genedlaethol os ydym am elwa i'r eithaf ar y buddsoddiad a wneir mewn addysg Gymraeg – dyma'r unig ffordd i sicrhau effeithlonrwydd gwariant cyhoeddus.

Heblaw'r adolygiad o'r Gymraeg, datblygiad pwysig arall oedd parhad yr adolygiad pum mlynedd ohonom gan gwmni Newidiem ar ran y Cynulliad. Daeth y rhan gyntaf, a gasglodd fod angen parhaol am y Bwrdd a'i swyddogaethau, i ben cyn dechrau'r cyfnod adrodd. Ond roedd ail ran yr adolygiad yn cwmpasu'r cyfnod adrodd, ac yn edrych ar ein heffeithiolrwydd fel corff. Braf iawn oedd darllen yn yr adroddiad terfynol fod Newidiem o'r farn fod y Bwrdd yn cael ei redeg yn dda a bod gennym systemau rheoli cadarn a hanes o weinyddu medrus. Braf hefyd oedd darllen y gallai'r Bwrdd 'hawlio cryn glod am ei gyfraniad tuag at y newidiadau positif sydd i'w canfod mewn agweddau tuag at yr iaith yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac am gyflawni ei genhadaeth mewn dull strategol a phroffesiynol'.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys 29 o argymhellion i gyd, ac roedd y Bwrdd a'r Cynulliad fel ei gilydd yn barod i dderbyn bron pob un o'r rhain. Ymysg y prif argymhellion, nodwyd yr angen i ddatblygu ein strategaeth a'i blaenoriaethu, a'r angen hefyd i roi mwy o bwyslais yn ein holl weithgareddau ar gynyddu defnyddio'r Gymraeg. Rydym wedi cychwyn yn barod, ynghyd â'n partneriaid, ar ddiffinio ein prif flaenoriaethau o ran sicrhau dyfodol ffyniannus i'r Gymraeg, fel sail i'r gwaith o ddatblygu ein strategaeth. Ein bwriad fydd ei datblygu i gydblygu ag argymhellion y Pwyllgor Diwylliant, a hefyd â blaenoriaethau strategaeth y Cynulliad i greu Cymru ddwyieithog.

In January this year, the Board also presented evidence to the Lifelong Education Committee as part of the review of the Welsh language. In that evidence, we drew attention to several requirements so far as the Welsh language in education is concerned, including the need to:

- improve language continuity, from Welsh medium nursery education to lifelong learning;
- expand Welsh medium provision to children under 5, to the post 16 sector, and to the Welsh for Adults field;
- provide equal linguistic opportunities to children with special needs;
- work up a clear definition of what is meant by Welsh medium schools;
- examine in more detail the provision of Welsh medium immersion education to everyone who desires it for their children – something which the Minister for Education and Lifelong Learning, Jane Davidson AM, has recently commended.

Education has, of course, been one of the cornerstones of growth for the language. We are firmly of the view that a national strategy is needed if we are to benefit fully from the investment made in Welsh language education – this is the only way to ensure efficiency in public spending.

Apart from the review of the Welsh language, another important development was the continuation of the quinquennial review of the Board, conducted by the agency Newidiem on behalf of the Assembly. The first part, which concluded that there was a continuing need for the Board and its functions, was completed before the beginning of the reporting period. But the second part of the review, dealing with the Board's effectiveness as a body, did extend over the reporting period. It was good to read in the final report that Newidiem was of the opinion that the Board was a well-run organisation, and that we have robust control systems and a record of competent administration. It was also pleasing to note that the Board 'can justifiably claim credit for its contribution to the positive changes in attitude to the Welsh language during the past few years and for undertaking its mission in a strategic and professional way'.

The report contained 29 recommendations in all, and the Board and the Assembly were both prepared to accept nearly all of these. Amongst the main recommendations, the need to develop and prioritise our strategy was noted, as well as the need to place more emphasis in all our activities on increasing the use of Welsh. In conjunction with our partners, we have already started on the work of defining our main priorities to ensure a prosperous future for the language, as a basis for developing our strategy. We intend to develop it to tie in with the Culture Committee's recommendations, and also with the priorities of the Assembly's strategy to create a bilingual Wales.

Rydym yn derbyn yn syth fod angen rhoi lle canolog i gynyddu defnyddio'r Gymraeg yn ein gwaith: yn wir, dyma yw prif thema'r adroddiad hwn. Mae'n canolbwyntio ar chwe elfen: dau gyfnod allweddol mewn bywyd – y blynyddoedd cyntaf, ac ieuencid; a phedair wahanol agwedd ar ein bywydau ni i gyd – y gymuned, byd gwaith, derbyn gwasanaeth, a hamdden. Mae adran ychwanegol wedyn yn sôn am yr holl waith cynhaliol y mae'r Bwrdd yn ei wneud i feithrin cysylltiadau.

Diolch i holl staff y Bwrdd am eu brwdfrydedd a'u hymrwymiad diflino i'w gwaith. Diolch o galon hefyd i'n holl bartneriaid – mawr a bach – am eu cydweithrediad dros y flwyddyn. Mae'r mynych gyfeiriadau atyn nhw yng nghorff y testun yn brawf na allai'r Bwrdd lwyddo yn ei genhadaeth heb eu cefnogaeth. Yn sicr, byddwn ni'n rhoi'r pwys mwyaf ar eu barn wrth ddatblygu ein gweledigaeth ar gyfer dyfodol y Gymraeg. Gall yr hyn sy'n deillio o adolygiad y Cynulliad o'r Gymraeg gynnig cyfle euraidd inni wneud creu Cymru ddwyieithog yn ffaith. Bydd yn rhaid achub pob cyfle. A bydd yn rhaid wrth yr adnoddau angenrheidiol. Ond yn fwy na dim, bydd yn rhaid diogelu'r consensws o blaid yr iaith y mae'r Bwrdd wedi gweithio mor galed i'w adeiladu dros y blynyddoedd.

Un o lwyddiannau mawr y gorffennol oedd diogelu'r Gymraeg rhag cael ei thrin fel pêl droed wleidyddol. Yn anffodus, mae'r hyn y mae rhai o'n cyd-Gymry wedi bod yn ei ddweud a'i wneud yn ddiweddar – yn aml am resymau digon didwyll – yn peryglu'r consensws sy'n bodoli. Rhaid inni i gyd sylweddoli mai prosiect cenedlaethol yw diogelu a datblygu'r Gymraeg fel un o ddwy iaith genedlaethol Cymru. Mae'n fater i Gymru gyfan. Felly, ni allwn lwyddo yn ein gwaith heb gefnogaeth mwyafrif y boblogaeth, i'n galluogi i weithredu'r polisïau angenrheidiol ac i berswadio ein cyd-ddinasyddion o werth creu Cymru ddwyieithog. Yn y gwaith yma, mae'n rhaid inni ymdrin â phawb, beth bynnag yw eu barn, gyda pharch a goddefgarwch, gan gyflwyno ein hachos yn bwyllog ac yn ddoeth i ennill dadleuon, i leddfu pryderon, a thanio dychymyg. Gwae ni os bydd ymgecu diddiwedd ac anadeiladol yn cario'r dydd. Achos os digwydd hynny, y Gymraeg, yn ddi-os, fydd ar ei cholled.

We readily accept the need to give a central place in our work to increasing the use of Welsh: indeed, that is the main theme of this report. It concentrates on six elements: two key periods in life – the first years, and youth; and four different aspects of all our lives – community, the workplace, receiving services, and leisure. There follows an additional section dealing with all the supportive work which the Board does to foster links with others.

Our thanks go to all the Board's staff for their enthusiasm and unfailing commitment to their work. Many thanks also to all our partners – big and small – for their co-operation throughout the year. The frequent references which is made to them in the body of the text is proof that the Board could not succeed in its mission without their support. We shall indeed place great emphasis on their views as we develop our vision for the future of the Welsh language. What will emerge from the Assembly's review of the Welsh language could provide us with a golden opportunity to realise the creation of a bilingual Wales. We must take advantage of every opportunity, and the necessary resources will have to be found. But above all else, we must secure the consensus in favour of the language that the Board has been working so hard to establish over the years.

One of the undisputed successes of the past was to safeguard the language from being treated as a political football. Unfortunately, what some of our fellow Welshmen and women have been saying and doing of late – often for quite sincere reasons – has put the prevailing consensus in peril. We must all of us appreciate that safeguarding and developing the Welsh language as one of the two national languages of Wales is a national project. It is a matter for the whole of Wales. Consequently, we cannot succeed in our work without the support of the majority, so that we may implement the necessary policies and persuade our fellow-citizens of the value of a bilingual Wales. In this task, we must treat everybody, whatever their opinions, with respect and tolerance, and present our case carefully and wisely so as to win arguments, alleviate concerns, and fire the imagination. Woe betide us if endless and unconstructive bickering carries the day. If that should happen, then the Welsh language, without doubt, will be the loser.



Rhodri Williams
Cadeirydd
Mai 2002

Rhodri Williams
Chair
May 2002

Rhodri Williams



John Walter Jones
Prif Weithredwr
Mai 2002

John Walter Jones
Chief Executive
May 2002

John Walter Jones

Y Blynyddoedd Cyntaf

The First Years

Dyma'r cyfnod y mae'r Bwrdd yn rhoi'r pwys mwyaf arno. Y blynyddoedd cynnar yw'r amser gorau i ddod yn rhugl mewn iaith. Gall plant ifanc ddysgu siarad Cymraeg yn naturiol drwy'r teulu os yw eu rhieni'n siarad Cymraeg gyda nhw o'r cychwyn. Y ffordd rwydd arall i ddysgu'r iaith yn gynnar yw drwy addysg feithrin. Mae addysg feithrin yn gyfrwng effeithiol iawn i blant ddod yn ddwyieithog yn eu blynyddoedd cyntaf os nad yw eu rhieni yn medru'r iaith Gymraeg. Mae hefyd yn gyfrwng effeithiol i blant sy'n siarad Cymraeg gartref ehangu a gwella eu sgiliau ieithyddol.

Ers bron i bum mlynedd, mae'r Bwrdd wedi bod yn cynhyrchu taflenni ar fanteision dwyieithrwydd cynnar i blant. Dyma un o'n prif flaenoriaethau marchnata. Mae'r taflenni yma'n cael eu cyflwyno i bob mam sy'n rhoi genedigaeth mewn ysbyty yng Nghymru – tua 33,000 bob blwyddyn.

Cynllun TWF

Yn ôl Cyfrifiad 1991, roedd 22.3% o blant rhwng 3 a 9 oed yng Nghymru yn siarad Cymraeg (o'i gymharu â 18.7% o'r boblogaeth i gyd). Mae'r cynnydd yn y grŵp ieuengaf yn adlewyrchu llwyddiant addysg cyfrwng Cymraeg, ac addysg feithrin yn arbennig. Ond, yn ôl Cyfrifiad Ysgolion 2001, dim ond 6.3% o ddisgyblion ysgolion cynradd sy'n siarad Cymraeg yn y cartref. Mae'r ganran yma wedi bod yn disgyn yn raddol ond yn gyson ers dros ugain mlynedd. Felly, mae trosglwyddo'r iaith yn y teulu o genhedlaeth i genhedlaeth yn problem

This is the period on which the Board places the greatest emphasis. The early years are the best time to become fluent in a language. Young children can learn to speak Welsh naturally within the family if their parents speak Welsh with them from the start. Another easy way to learn the language at an early stage is through nursery education. Nursery education is a very effective means for children to become bilingual in their early years even if their parents do not speak the Welsh language. It is also an effective way for children who speak Welsh at home to extend and improve their language skills.

For nearly five years, the Board has been producing leaflets on the advantages of early bilingualism for children. This is one of our main marketing priorities. These leaflets are presented to every mother who gives birth in a hospital in Wales – around 33,000 every year.

The TWF Project

According to the 1991 census, 22.3% of children between 3 and 9 years of age in Wales spoke Welsh (compared with 18.7% of the population as a whole). This increase in the youngest age group reflects the success of Welsh medium education, and of nursery education in particular. But according to the 2001 Schools' Census, only 6.3% of primary school pupils speak Welsh at home. This percentage has been falling gradually but consistently for over twenty years. Therefore, language transmission from generation to generation within the family is a key issue that has to be faced if the Welsh



"Yn ôl Joshua Fishman ...y prif ffactor sy'n cyfrannu at farwolaeth iaith yw diffyg trosglwyddiad iaith o un genhedlaeth i'r llall. Yn syml, er mwyn i iaith barhau mae'n rhaid i rieni ei siarad gyda'u plant, gan greu cenedlaeth newydd o siaradwyr cynhenid."

Rhodri Williams,
Rhagolygon yr Iaith



Rhodri Williams, Jenny Randerson AC, Delyth Evans AC a'r Athro Colin Baker, Aelod o'r Bwrdd, yn lawns TWF Mawrth 2002

Rhodri Williams, Jenny Randerson AM, Delyth Evans AM and Professor Colin Baker, Board Member, at the TWF launch March 2002



"According to Joshua Fishman ...the main factor that contributes to the death of a language is the failure to transfer the language from one generation to the next. To put it simply, for a language to survive, parents have to speak it with their children, thus creating a new generation of indigenous speakers."

Rhodri Williams,
The Prospects for the Welsh Language

greiddiol y mae'n rhaid ei hwynebu os yw'r Gymraeg yn mynd i barhau. A dyna'n union y mae'r Bwrdd wedi ceisio ei wneud gyda'i gynllun arloesol, TWF.

Cychwynnodd y gwaith yn 1998-99 gyda'r prosiect peilot, Trosglwyddo Iaith o fewn y Teulu. Yn dilyn llwyddiant hwnnw, clustnododd y Cynulliad swm o £420,000 dros dair blynedd i ehangu'r cynllun a rhoddwyd cytundeb i Iaith Cyf. i reoli'r gwaith. Cafodd y cynllun ei lansio'n swyddogol, dan yr enw newydd TWF, gan y Gweinidog â chyfrifoldeb dros y Gymraeg, Jenny Randerson AC, ddechrau Mawrth 2002.

Ei nod yw ceisio perswadio rhieni newydd i ddeall manteision dwyieithrwydd cynnar, a thrwy hynny siarad Cymraeg gyda'u plant. Mae'r pwyslais ar deuluoedd â dim ond un o'r rhieni'n siarad Cymraeg. Ar hyn o bryd, tua hanner y plant mewn teuluoedd o'r fath sy'n siarad Cymraeg gartref, a'r prif nod yw codi'r ganran yma.

Bellach, mae un swyddog datblygu cenedlaethol a naw swyddog maes rhan amser wedi eu penodi. Mae'r rhain yn cydweithio'n agos gyda bydrwagedd ac ymwelwyr iechyd lleol i berswadio rhieni i fagu eu plant yn ddwyieithog. Mae'r swyddogion hefyd yn cydweithio gyda nifer o fudiadau megis y mentrau iaith a Mudiad Ysgolion Meithrin. Rydym wedi datblygu deunyddiau arbennig i alluogi'r gweithwyr proffesiynol yma i drafod dewis iaith y cartref gyda rhieni. Rydym hefyd wedi derbyn cyllid ychwanegol gan y Cynulliad i gynhyrchu deunyddiau hyrwyddo newydd i ymestyn y prosiect i weddill Cymru.

language is to survive. This is exactly what the Board is trying to do with its pioneering project, TWF.

The work began in 1998-99 with the pilot project, Language Transmission in the Family. Following its success, the National Assembly earmarked a sum of £420,000 over three years to extend the project, and a contract was awarded to Iaith Cyf. to manage the work. The project was officially launched at the beginning of March 2002, under the new name TWF, by the Minister with responsibility for the Welsh language, Jenny Randerson AM.

Its purpose is to persuade new parents to understand the advantages of early bilingualism, and consequently to speak Welsh with their children. The emphasis is on families where only one parent speaks Welsh. At the moment, around half the children in such families speak Welsh at home, and the main aim is to increase this percentage.

So far, one national development officer and nine part-time field officers have been appointed. These officers work closely with midwives and local health visitors to persuade parents to bring up their children bilingually. These officers also work closely with several organisations such as the mentrau iaith (local language initiatives) and Mudiad Ysgolion Meithrin. We have developed special materials to enable these professionals to discuss with parents the choice of language at home. We have also received additional funding from the Assembly to produce new promotional materials to extend the project to the rest of Wales.

"Mae'n amlwg, felly, fod yr angen i ddatblygu'r cynllun TWF - a'r angen i'r cynllun hwnnw lwyddo - yn mynd i fod yn ffactor hanfodol bwysig o ran dyfodol yr iaith."

Rhodri Williams,
Rhagolygon yr Iaith

"It is obvious, therefore, that the need to develop the TWF Project - and the need for that project to succeed - is going to be a vitally important factor in terms of the future of the language."

Rhodri Williams,
The Prospects for the Welsh Language

Mudiad Ysgolion Meithrin

Bellach mae Mudiad Ysgolion Meithrin (MYM) yn cefnogi gwaith dros 1,000 o gylchoedd Ti a Fi a chylchoedd meithrin ledled Cymru. Dangosodd gwaith ymchwil - a gafodd ei wneud eleni ar y cyd rhwng Adran Addysg, Prifysgol Cymru Bangor a'r Bwrdd - fod plant yn gwneud cynnydd sylweddol yn eu gallu i ddefnyddio'r Gymraeg yn ystod eu cyfnod yng nghylchoedd y Mudiad. Mae'n amlwg felly fod gwaith MYM yn gosod sylfaen gref o ran sicrhau dwyieithrwydd cyflawn i'r plant sy'n mynd i'w gylchoedd.

Cytunwyd yn 2002 ar strategaeth newydd fydd yn arwain at gydweithio rhwng MYM a Fforymau Blynyddoedd Cynnar yr awdurdodau lleol. Mae'r pwyslais drwyddi draw ar agor mwy o gylchoedd meithrin ledled Cymru. Cynyddodd grant blynyddol y Bwrdd i MYM i £668,000 yn 2001-02.

Mudiad Ysgolion Meithrin

By now, Mudiad Ysgolion Meithrin (MYM) supports the work of over 1,000 Ti a Fi and nursery groups throughout Wales. Research work - carried out this year by the Education Department at University of Wales, Bangor in conjunction with the Board - has shown that children significantly increase their ability to use Welsh whilst attending MYM groups. It is clear therefore that MYM's work provides a strong foundation to ensure that the children attending its groups become fully bilingual.

During 2002 a new strategy was agreed for the organisation which will lead to collaboration between MYM and the local authorities' Early Years Forums. The emphasis throughout is on opening more nursery groups across Wales. The Board's annual grant to MYM increased to £668,000 in 2001-02.



"Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg hefyd yn gwneud llawer o waith gyda'i fenter TWF, a fydd yn cynnig gwybodaeth i rieni a darpar rieni am fanteision magu plant yn ddwyieithog."


Mae Cymru yn torri tir newydd yn y maes hwn gan nad oes cynllun arall tebyg ar waith yn Ewrop ar hyn o bryd."

Jenny Randerson AC,
Y Gweinidog Diwylliant, Ebrill 2002

"The Welsh Language Board are undertaking tremendous work on their TWF initiative which is designed to share information with parents and expectant parents about the advantages of bringing up children bilingually."

Wales is breaking new ground in this respect as at present, no similar scheme is running in Europe."

Jenny Randerson AM,
The Minister for Culture, April 2002



Ieuenctid

Youth

Dyma gyfnod hollbwysig arall, pan fydd dinasyddion y dyfodol yn derbyn eu haddysg statudol. Mae pwysigrwydd y maes addysg i'r Gymraeg yn amlwg. Dyma bellach y prif gyfrwng i gynhyrchu siaradwyr Cymraeg newydd.

Ond wrth adeiladu ar lwyddiant addysg Gymraeg, rhaid peidio â cholli golwg chwaith ar fywydau ein pobl ifanc y tu allan i'r ysgol. Mae'r Bwrdd wedi nodi fel blaenoriaeth ers blynyddoedd yr angen i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg gan bobl ifanc, yn enwedig y grŵp 14-25 oed. Yn anffodus, ni chawsom hyd yma yr adnoddau angenrheidiol i gynnal yr ymgyrchoedd cenedlaethol sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r broblem yn ei chyfanrwydd. Serch hynny, rydym wedi ceisio gwneud y gorau o'r hyn sydd ar gael, drwy roi grant i un arall o'n prif bartneriaid, Urdd Gobaith Cymru, sy'n gweithio'n uniongyrchol yn y maes ieuenctid. Hefyd, rydym wedi gosod pwyslais cynyddol ar weithgareddau i ieuenctid gan nifer o'r cyrff eraill yr ydym yn eu hariannu, yn arbennig weithgareddau'r mentrau iaith ledled Cymru a'r Mudiad Ffermwyr Ifanc.

Cynlluniau Addysg Gymraeg

Mae ein gwaith statudol o gytuno a monitro Cynlluniau Addysg Gymraeg yn parhau. Bellach mae gan 17 awdurdod addysg lleol gynllun yn ei le, ac erbyn diwedd 2002, bydd cynllun pob un o'r 22 awdurdod wedi ei gymeradwyo. Bydd hyn yn golygu fod gennym ddarlun clir o'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ledled Cymru am y tro cyntaf erioed. Mae'r broses o fonitro targedau'r cynlluniau yn rhan greiddiol o'r gwaith, a braf yw nodi fod nifer o ysgolion cyfrwng Cymraeg newydd wedi eu sefydlu yn ystod y cyfnod i ateb y cynnydd yn y galw. Mae'r rhain yn cynnwys ysgolion cyfrwng Cymraeg ym Mhowys, Bro Morgannwg a Sir Fynwy.

This is another all-important period, during which our future citizens receive their statutory education. The importance of education to the Welsh language is plain, as this is now the principal means by which new Welsh speakers are produced.

But as we build on the success of Welsh language education, we must not lose sight of the lives of our young people outside school. For years the Board has identified as a priority the need to increase the use of Welsh by young people, especially in the 14-25 age group. Unfortunately, we have not yet secured the necessary resources to conduct the national campaigns which are needed to tackle this problem in its entirety. Even so, we have sought to make the best use of available resources by awarding grants to another of our main partners, Urdd Gobaith Cymru, which works directly in the provision of youth activities. We have also placed increasing emphasis on youth activities organised by many other bodies that we fund, especially by the mentrau iaith across Wales and the Young Farmers' Clubs.

Welsh Education Schemes

Our statutory work of agreeing and monitoring Welsh Education Schemes continues. To date, 17 local education authorities have a scheme in place, and by the end of 2002, schemes will have been approved for all 22 authorities. This means that for the first time we will have a clear picture of Welsh medium and bilingual provision across Wales. The process of monitoring the schemes' targets is a central part of the work, and we are pleased to note that several new Welsh medium schools have been established during this period in response to increasing demand. These include Welsh medium schools in Powys, the Vale of Glamorgan and Monmouthshire.

"Y gyfundrefn addysg sy bellach yn creu canran uchel o'n siaradwyr Cymraeg. Dyma'r gyfundrefn sydd â'r potensial i sicrhau fod gan bob siaradwr Cymraeg y sgiliau sydd eu hangen arnyn nhw i wynebu'r byd, gan ddefnyddio eu dewis iaith."

Rhodri Williams,
Rhagolygon yr Iaith

"By now it is the education system that creates a high percentage of our Welsh speakers. This is the system with the potential to ensure that every Welsh speaker has the skills they need to face the world, using the language of their choice."

Rhodri Williams,
The Prospects for the Welsh Language



Maes arall lle bydd twf dros y blynyddoedd nesaf yw addysg ar ôl 16 oed. Mae naw o golegau â chynlluniau yn barod, ac mae eraill yn cwblhau eu cynlluniau. Bydd gweithredu'r rhain yn arwain at gynnydd sylweddol mewn addysg Gymraeg ar draws y meysydd pwnc. Bydd hyn yn creu gwell dilyniant mewn addysg Gymraeg, a'r nod yw teilwra'r cynnydd i'r galw cynyddol gan gyflogwyr am weithwyr sy'n gallu gweithio'n ddwyieithog. Mae mwy o fanylion am y cynlluniau yma yn Atodiad 4.

Grantiau Addysg Gymraeg

Cafodd £2,182,500 ei ddyrannu gan y Bwrdd yn ystod 2001-02 mewn grantiau i hyrwyddo addysg Gymraeg yn benodol, a chaiff £2,242,000 ei ddyrannu ar gyfer 2002-03. Caiff y grantiau yma eu rhannu i'r awdurdodau lleol o dan bedwar pennawd sef:

- y gwasanaeth Athrawon Bro ar gyfer y sector ail iaith a iaith gyntaf;
- canolfannau i hwyrddyfodiaid;
- cyrsiau preswyl;
- prosiectau peilot.

Mae manylion pellach am y grantiau yma yn Atodiad 3.

Prosiect Deunyddiau Athrawon Bro

Cynhaliwyd cynhadledd genedlaethol gydag Athrawon Bro ac Ymgynghorwyr y Gymraeg i drafod rhannu deunyddiau dysgu mamiaith ac ail iaith. Mae cyllid ychwanegol o'r Cynulliad wedi ein galluogi i olygu a chysoni'r deunyddiau yma. Rydym wedi comisiynu cwmni Atebion i wneud hyn, ac i osod y cynnyrch ar y we at ddefnydd y gwasanaeth ac ysgolion ledled Cymru.

Post 16 education will be another growth area over the next few years. Nine colleges already operate schemes, and others are in the process of completing theirs. Implementing these schemes will lead to a significant increase in Welsh medium education across all subject areas. This will provide better continuity in Welsh medium education, with the aim of tailoring growth to the increasing demand by employers for staff who can work bilingually.

Further information about these schemes is contained in Annex 4.

Welsh Education Grants

Grants totalling £2,182,500 were distributed by the Board during 2001-02 specifically to promote Welsh medium education, and £2,242,000 will be distributed for 2002-03. These grants are shared out to local authorities under four headings:

- the *Athrawon Bro* service for the first language and second language sectors;
- late comers' centres;
- residential courses;
- pilot projects.

Further information about these grants is contained in Annex 3.

Athrawon Bro Resources Project

A national conference was held with *Athrawon Bro* and Welsh Language Advisers to discuss sharing first language and second language teaching materials. Additional funding from the Assembly has enabled us to edit and standardise these materials. We have commissioned the company Atebion to do this, and to place the materials on the web for use by the service and by schools across Wales.

Anghenion Addysgol Arbennig

Ar ôl cynnal arolwg cenedlaethol o'r ddarpariaeth addysg anghenion arbennig cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, cyhoeddodd y Bwrdd adroddiad gan Huw Roberts, Uwch Ddarlithydd ym Mhrifysgol Cymru Bangor. Cafodd yr adroddiad ei noddi ar y cyd â'r Cynulliad, a derbyniodd y Cynulliad y ddogfen ym mis Hydref 2001. Y cam nesaf o ran gweithredu fydd cydweithio gyda'r Cynulliad a phartneriaid eraill i sicrhau cyfle cyfartal i bawb sy'n dymuno derbyn addysg cyfrwng Cymraeg.

Urdd Gobaith Cymru


Cynyddodd grant y Bwrdd i'r Urdd i £325,000 ar gyfer 2001-02. Ond cafodd y mudiad flwyddyn anodd iawn oherwydd clwy'r traed a'r genau. Serch hynny, llwyddwyd i gydweithio gyda'r mudiad a'r Cynulliad i sicrhau £150,000 o gyllid ychwanegol ar gyfer ymgyrch farchnata gynhwysfawr, sy'n gwneud cyfanswm o £475,000 ar gyfer y cyfnod. Cynorthwyodd y Bwrdd yr Urdd i ail-lansio yn llwyddiannus ac i gytuno targedau strategol sy'n cynnwys cynnig darpariaeth ar gyfer pobl ifanc, a chyfluoedd i ddisgyblion mamiaith ac ail iaith. Yn ogystal, cytunodd y Cynulliad i roi cyfraniad o £250,000 i'r Urdd tuag at adeilad newydd fel canolfan groeso ar safle Glan-Llyn.

Special Educational Needs

After conducting a national research project on Welsh medium and bilingual special educational needs provision, the Board published a report by Huw Roberts, Senior Lecturer at the University of Wales, Bangor. This report was funded jointly by the Assembly, to which the document was submitted in October 2001. The next step will be to collaborate with the Assembly and other partners to ensure equality of opportunity for everyone wishing to receive their education through the medium of Welsh.

Urdd Gobaith Cymru

The Board's grant to the Urdd increased to £325,000 for 2001-02. However, the organisation had a very difficult year because of the foot and mouth crisis. Even so, the Board succeeded in working with the Urdd and the Assembly to secure £150,000 additional funding for a comprehensive marketing campaign, making a total of £475,000 for the period. The Board helped the Urdd to re-launch itself successfully and to agree strategic targets, which include provision for young people, and opportunities for first language and second language pupils. In addition, the Assembly agreed to make a contribution of £250,000 to the Urdd towards a new building for use as a reception area at the Glan-Llyn site.



Deunyddiau Athrawon Bro ar y We

Athrawon Bro resources on the Web



Y Gymuned Community

Mae ymrwymiad y Bwrdd i atgyfnerthu'r Gymraeg fel iaith gymunedol i'w weld yn glir yn y cynnydd dros y blynyddoedd mewn grantiau i'r mentrau iaith ac i nifer o ddatblygiadau cymunedol eraill. Wrth ystyried materion economaidd a chymdeithasol er mwyn creu cymunedau cynaliadwy, yr hyn sy'n bwysig yw rhoi'r sylw priodol i'r dimensiwn ieithyddol. Mae'n gwbl angenrheidiol, felly, fod yr asiantaethau perthnasol i gyd yn cydnabod y dimensiwn hwn, a sicrhau fod cynnal a datblygu dwyieithrwydd yn rhan greiddiol o'u gwaith.

Grantiau

Yn ystod blwyddyn ariannol 2001-02, rhoddodd y Bwrdd grantiau gwerth £2,867,587 o dan ei Brif Gynllun Grantiau, ar gyfer hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r iaith. Derbyniodd 33 o gyrff - yn amrywio o Mudiad Ysgolion Meithrin i RNIB Cymru, yn ogystal â'r papurau bro ledled Cymru - gefnogaeth o dan y cynllun. Ymhob achos cafodd y gwariant ei fonitro yn unol â blaenoriaethau strategol y Bwrdd. Ar gyfer 2002-03, mae'r Bwrdd wedi cynnig cyfanswm o £2,407,423 i 31 o sefydliadau ac i hyd at 57 o bapurau bro. Mae'r cyfanswm hwn yn llai na'r llynedd am na fydd angen i'r Bwrdd bellach roi grant i Gyngor Llyfrau Cymru. Yn ogystal â'r Prif Gynllun, cynigodd y Bwrdd £10,152 yn 2001-02 o dan y Cynllun Grantiau Bach. Ei brif bwrpas yw ysgogi sefydliadau i gynhyrchu deunyddiau marchnata dwyieithog.

Mae manylion pellach am yr holl grantiau o dan y prif gynllun yn Atodiad 3.

Mentrau iaith

Yn ystod y flwyddyn, dathlodd Menter Cwm Gwendraeth ei phen-blwydd yn ddeg oed. Hi oedd y fenter gyntaf yng Nghymru. Ers hynny, mae'r Bwrdd wedi cefnogi datblygu rhwydwaith o fentrau iaith ar draws y wlad, ac rydym yn eu hystyried yn bartneriaid cynyddol bwysig yn ein hymwneud â datblygu cymunedol. Yn 2001-02, cynyddodd y grantiau i'r rhwydwaith pwysig yma i £652,425.

Yn dilyn cyhoeddi arolwg Iaith Cyf. y llynedd ar eu gwaith, bu'r Bwrdd yn cydweithio gyda'r mentrau i weithredu argymhellion yr arolwg. Sefydlodd y Bwrdd Bwyllgor Ymgynghorol Cenedlaethol fel fforwm drafod, a chynhaliwyd nifer o gyfarfodydd i drafod ffyrdd o gydweithio i hybu dwyieithrwydd ledled Cymru. Arweiniodd hyn at adolygu safle gwe'r mentrau ac at ddechrau'r gwaith o sefydlu mewnwyd ar gyfer y mentrau a'r Bwrdd i rannu gwybodaeth ac arbenigedd.

The Board's commitment to strengthening Welsh as a community language is clearly evident in the increase over the years in grants to the mentrau iaith and to many other community developments. When considering the economic and social factors needed to create sustainable communities, what is important is that due attention is given to the linguistic dimension. It is therefore essential that all relevant agencies recognize this dimension, and ensure that maintaining and developing bilingualism has a central part in their work.

Grants

During the financial year 2001-02, the Board awarded grants worth £2,867,587 under its Main Grants Programme to promote and facilitate the use of the language. Thirty-three bodies – ranging from Mudiad Ysgolion Meithrin to RNIB Cymru, as well as papurau bro (community newspapers) throughout Wales – have received support under the programme. In each case, expenditure was monitored in accordance with the Board's strategic priorities. For 2002-03, the Board has offered a total of £2,407,423 to 31 organisations and up to 57 papurau bro. This sum is less than last year's figure, since the Board will no longer need to give a grant to the Welsh Books Council. As well as the Main Programme, the Board offered £10,152 in 2001-02 under the Small Grants Scheme, whose main purpose is to encourage organisations to produce bilingual marketing material.

Further details of all the grants under the main programme are contained in Annex 3.

Mentrau iaith (Local language initiatives)

During the year, Menter Cwm Gwendraeth – the first menter iaith to be established in Wales - celebrated its tenth birthday. Since it was established, the Board has come to support a network of mentrau iaith across the country, and we regard them as increasingly important partners in our involvement with community development. In 2001-02 grants to this important network increased to £652,425.

Following the publication last year of a review of their work by Iaith Cyf., the Board has been working with the mentrau iaith to implement its recommendations. The Board has established a National Advisory Committee as a discussion forum, and a number of meetings have been held to discuss ways of collaborating to promote bilingualism across Wales. This has led to a review of the mentrau iaith's website and to initiating work to establish an intranet for the mentrau and the Board, which aims to share information and expertise.

“Mae'r Cynulliad wedi dangos parodrwydd i weithio tuag at wneud ein cymunedau difreintiedig a'n cymunedau gwledig yn rhai cynaliadwy. Y brif her i ni yw gofalu bod yr asiantaethau sy'n gyfrifol am wneud hynny yn deall bod cynnal a datblygu dwyieithrwydd y cymunedau hynny yn rhan greiddiol o sicrhau dyfodol cynaliadwy iddyn nhw.”

Rhodri Williams,
Rhagolygon yr Iaith

“The Assembly has shown its willingness to work to make our disadvantaged communities and our rural communities sustainable. The main challenge for us is to ensure that the responsible agencies understand that maintaining and developing bilingualism in these communities is a core element in ensuring a sustainable future for them.”

Rhodri Williams,
The Prospects for the Welsh Language.

Cynllun Datblygu Ardal Abergwaun

Heb os, dyma un o ddatblygiadau arloesol y flwyddyn, a daeth 200 ynghyd i'w lansio ym mis Ionawr 2002 ar ôl bron i flwyddyn o waith paratoi. Ei nod yw tynnu nifer helaeth o bartneriaid a phobl leol yr ardal at ei gilydd i hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg yn y cylch. Ar ôl mapio'r patrymau defnyddio iaith yn yr ardal, bwriedir parhau i gydweithio er mwyn ymestyn y cyfleoedd i bobl o bob oedran ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd. Mae nifer o gyrff yn cydweithio ar y prosiect, gan gynnwys Menter Iaith Sir Benfro, Mudiad Ysgolion Meithrin, ysgolion lleol, gweithwyr o'r maes Cymraeg i Oedolion, a Chlybiau Ffermwyr Ifanc. Mae Awdurdod Datblygu Cymru a Chyngor Sir Benfro wedi cefnogi'r cynllun ar y cyd â'r Bwrdd. Dyma enghraifft wych o gydweithio ar bob lefel rhwng y gymuned leol a sefydliadau sirol a chenedlaethol er lles y Gymraeg.

Codi Ymwybyddiaeth

Mae'r Bwrdd wedi cychwyn ar y gwaith o lunio safle gwe fydd yn cynnig gwybodaeth leol i bobl sy'n symud i mewn i ardal. Bydd y safle yn ddatblygiad pellach ar y "Pecynnau Croeso" sydd wedi eu cyhoeddi gan rai o'r mentrau iaith. Bwriad y "Pecynnau Croeso" newydd fydd rhoi darlun o natur sefyllfa ieithyddol a chymdeithasol cymunedau Cymru, a chynnig manylion ynghylch:

- addysg ddwyieithog a chyfrwng Cymraeg;
- y ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion;
- gweithgareddau cymunedol gan y mentrau iaith, MYM, yr Urdd ac eraill.

Fishguard Area Development Project

Without doubt, this was one of the pioneering developments of the year, and 200 people came together to launch the project in January 2002 after nearly a year's preparatory work. Its purpose is to draw together local people and several of our partners to facilitate the use of Welsh locally. After mapping patterns of language use in the area, the intention is to continue to work together to widen opportunities for people of all ages to use the Welsh language in different situations. A number of organisations are collaborating on the project, including Menter Iaith Sir Benfro, Mudiad Ysgolion Meithrin, local schools, representatives from the Welsh for Adults field, and the Young Farmers' Clubs. The Welsh Development Agency and Pembrokeshire County Council have supported the project in conjunction with the Board. This is a splendid example of co-operation at all levels between the local community and county-based and national organisations in promoting the use of the Welsh language.

Raising Awareness

The Board has started work on setting up a website that will provide local information to people who are moving into an area. The site will be a further development of the "Welcome Packs" which have been published by some of the mentrau iaith. The purpose of the new "Welcome Packs" will be to present a picture of the social and linguistic situation prevailing in Welsh communities, and to offer details about:

- bilingual and Welsh medium education;
- Welsh for Adults provision;
- community events arranged by the mentrau iaith, MYM, the Urdd and others.



Cefn: John Walter Jones, Rhodri Williams, Christine Wright, Pennaeth Ysgol Uwchradd Abergwaun
Blaen: Mrs J. Bennett Howell, Maer Abergwaun ac Wdig, Hedydd Hughes, Uned Iaith Ysgol Uwchradd Abergwaun, Y Cynghorydd Lloyd Evans
Lawns Cynllun Datblygu Ardal Abergwaun

Back: John Walter Jones, Rhodri Williams, Christine Wright, Headteacher of Fishguard High School
Front: Mrs J. Bennett Howell, Mayor of Fishguard and Goodwick, Hedydd Hughes, Fishguard High School Language Unit, Councillor Lloyd Evans
The launch of the Fishguard Area Development Plan

Cynllunio Gwlad a Thref

Un o'r ffactorau sy'n gallu niweidio Cymreictod cymunedau yw gorddatblygu tai, y tu hwnt i alw lleol a chyrraedd ariannol y trigolion. Yn hyn o beth, mae'r polisïau sy'n cael eu cynnwys mewn Cynlluniau Datblygu Unedol yn bwysig iawn. Fel rhan o'i gyfrifoldeb dros hyrwyddo'r Gymraeg, mae'r Bwrdd yn herio cynnwys y cynlluniau yma, yn enwedig y rhai sy'n effeithio ar yr ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn iaith gymunedol. Arweiniodd ymyrraeth y Bwrdd at ostyngiad yn nifer y tai i'w codi yn Sir Ddinbych, a chydnabyddiaeth gliriach fod iaith yn fater cynllunio dilys. Mae bwriadau Cyngor Sir Ceredigion yn dal yn destun pryder, a mynegodd y Bwrdd hynny wrth gyflwyno'i wrthwynebiad fel rhan o'r ymgyngoriad statudol. Mae'r Bwrdd yn croesawu canllawiau cynllunio cryfach diweddar y Gweinidog, Sue Essex AC, ond yn parhau o'r farn fod angen i'r Cynulliad brysur i roi arweiniad manylach i'r Awdurdodau Cynllunio ynglŷn â'r Gymraeg.

Town and Country Planning

One factor that can harm the Welsh language in communities is the overdevelopment of housing in excess of local need and what local people can afford. In this respect, the policies included in Unitary Development Plans are very important. As part of its responsibility to promote the Welsh language, the Board challenges the content of these plans, especially those which affect areas where Welsh is a community language. The Board's intervention has led to a decrease in the number of houses to be built in Denbighshire, and to a clearer recognition that language is a valid planning matter. The intentions of Ceredigion County Council remain a matter of concern, and the Board has expressed this in presenting its objections during the statutory consultation process. The Board welcomes the stronger planning guidelines issued recently by the Minister, Sue Essex AM, but remains of the view that the Assembly should hasten to give more detailed guidance to Planning Authorities on the Welsh language.



Arwel John yn arwyddo'r gyfrol 'Y Cyffro yn y Cwm' yng nghwmni Deris Williams, Cyfarwyddwr Ardal, a Meinir Lewis, Swyddog Gweinyddol a Chydlynnydd Prosiectau, Menter Cwm Gwendraeth

Arwel John signing the volume 'Y Cyffro yn y Cwm' in the company of Deris Williams, Area Director, and Meinir Lewis, Administrative Officer & Project Co-ordinator, of Menter Cwm Gwendraeth



Cyflwyniad o blât arbennig i Gewri'r Cwm ar gyfer Dathlu Deg. O'r chwith: Gwyn Elfyn (Pobl y Cwm) a Nigel Owens (Undeb Rygbi Cymru) a Deris Williams.

Presentation of a special Tenth Anniversary Plate to Cewri'r Cwm. From the left: Gwyn Elfyn (Pobl y Cwm) and Nigel Owens (Welsh Rugby Union) and Deris Williams.



Chwaraewyr Rygbi Rhyngwladol Cwm Gwendraeth ym Mharti Dathlu Deg Menter Cwm Gwendraeth.

Cwm Gwendraeth International Rugby players at the tenth anniversary birthday party of Menter Cwm Gwendraeth

Byd Gwaith The Workplace

Mae'r Bwrdd wedi bod yn pwysu'n gyson am gynydd yn y defnydd o'r Gymraeg yn y byd gwaith. Wrth i Gymru dyfu'n wlad gynyddol ddwyieithog, rydym am weld mwy a mwy o bobl yn cael y cyfle i ddefnyddio a datblygu eu sgiliau dwyieithog wrth eu gwaith. Pan fydd digon o bobl â'r sgiliau cymwys ar gael, yna bydd hi'n haws i sefydliadau a busnesau gynnig eu gwasanaethau yn ddwyieithog. Rydym hefyd am weld y cyrff yma'n cael pob cymorth cynhaliol i'w hwyluso yn y gwaith.

Cymraeg yn y Gweithle

Cytunodd Heddlu Gogledd Cymru i dreialu ein Canllawiau Cymraeg yn y Gweithle gafodd eu lansio yn 2000. Byddwn yn defnyddio canlyniadau'r gwaith treialu yma wrth adolygu cynnwys y Canllawiau i'r dyfodol.

Arwyddodd y Bwrdd gytundeb, gwerth bron i £200,000, gydag ELWa i gynyddu'r ddarpariaeth yn y maes. Bydd yr arian yma'n talu am dri pheth:

- datblygu gwrslyfrau a deunyddiau ar-lein i ddysgwyr;
- pecyn hyfforddi i diwtoriaid sy'n arwain at gymhwyster;
- talu arbenigwr i wneud cais i gronfeydd Amcan 1 a 3 i ddatblygu'r ddarpariaeth mewn busnesau.

Microsoft Office XP

Un o straeon mawr y flwyddyn oedd cwmni Microsoft yn lansio gwirydd sillafu Cymraeg, sydd ar gael yn rhad ac am ddim oddi ar ei safle gwe a safle gwe'r Bwrdd. (<http://office.microsoft.com/uk/downloads/2002/welshptk.aspx>) Gellir ei ddadlwytho i weithio gyda fersiwn diweddaraf pecyn meddalwedd byd-enwog Microsoft, Office XP. Canlyniad cydweithio agos rhwng y Bwrdd, Canolfan Bedwyr ym Mhrifysgol Cymru Bangor, a Microsoft yw'r datblygiad cyffrous yma.

The Board has been pressing consistently for growth in the use of Welsh in the workplace. As Wales becomes an increasingly bilingual country, we would like to see more and more people getting the chance to use and develop their bilingual skills at work. When sufficient people with the required skills are available, it will be easier for organisations and businesses to offer their services bilingually. We would also like to see these bodies receiving every support and assistance to help them in this work.

Welsh in the Workplace

North Wales Police agreed to trial our Guidelines on Welsh in the Workplace which were launched in 2000. We will be using the results of these trials when reviewing the contents of the Guidelines in future.

The Board signed an agreement worth nearly £200,000 with ELWa to increase provision substantially in this field. This money will pay for three things:

- developing textbooks and on-line material for learners;
- training packs for tutors that will lead to a qualification;
- commissioning an expert to make an application for Objective 1 and 3 funding to develop provision in businesses.

Microsoft Office XP

One of the year's major stories was Microsoft's decision to launch a Welsh language spellchecker, which is available free of charge on their web site and the Board's website. (<http://office.microsoft.com/uk/downloads/2002/welshptk.aspx>) It can be downloaded to work with the latest version of Microsoft's world famous software package, Office XP. This exciting development is the result of close collaboration between the Board, Canolfan Bedwyr at the University of Wales Bangor, and Microsoft.

Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd, Andrew Davies AC, yn lawns gwirydd sillafu Cymraeg Microsoft Office XP

The Minister for Economic Development, Andrew Davies AM, at the launch of the Microsoft Office XP Welsh language spellchecker



"Mae'r Gymraeg yn help i chi gael swydd. Mae asiantaethau cyflogi yng Nghaerdydd yn cael anhawster i ddarparu digon o ysgrifenyddion a derbynwyr dwyieithog. Mae'r cyfryngau Cymraeg yn dwyn y graddedigion gorau, ac yn mynnu siaradwyr Cymraeg ar gyfer bwletinâu newyddion. Mae dyfodiad y Cynulliad wedi arwain at brinder o gyfieithwyr. Ac mae rhieni Cymraeg sy'n gweithio yn dymuno gofaluwr Cymraeg i'w plant."

Liz Saville, Cyfarwyddwr Canolfan Dwyieithog Sgiliaith yng Ngholeg Meirion Dwyfor, Gogledd Cymru.

"Welsh helps you get a job. Employment agencies in Cardiff cannot provide enough bilingual secretaries and receptionists. Welsh-language media companies cream off the best graduates, and insist upon Welsh-speaking spokespersons for news bulletins. The arrival of the Welsh Assembly resulted in a shortage of translators. And working Welsh-speaking parents want a Welsh-speaking nanny for their children."

Liz Saville, Director of Sgiliaith Bilingualism Centre at Coleg Meirion Dwyfor, North Wales



Gwyn Bartley, Aelod o'r Bwrdd, a'r Prif Gwnstabl Richard Brunstrom, Heddlu Gogledd Cymru, yn lawns y daflen "Everything you wanted to know about Welsh..."

Gwyn Bartley, Board Member, and Chief Constable Richard Brunstrom, North Wales Police, at the launch of the "Everything you wanted to know about Welsh..." leaflet



Gwobrau Dylunio Dwyieithog

Llwyddiant am yr eildro! Cafwyd dros fil o geisiadau – dros ddwywaith yn fwy nag yn 2000 - mewn pum maes gwahanol iawn, a chynhaliwyd y seremoni wobrwyo yn Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis. Cyhoeddwyd atodiad arbennig gyda'r Western Mail yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol yn Ninbych, ac roedd cyfle hefyd i weld y gwaith buddugol ym Mhafiliwn Celf a Chrefft yr Eisteddfod trwy gydol yr wythnos. Unwaith eto eleni, llwyddwyd i ddenu nawdd ar gyfer y gwobrau gan Awdurdod Datblygu Cymru, Tesco, Nationwide, Camelot, Westdale Press, NatWest Cymru a chwmni dylunio Hughes. Braf yw nodi fod yr un cwmnïau eisoes wedi cytuno i barhau â'u cefnogaeth hael am flwyddyn arall.

Bilingual Design Awards

This proved a success for the second time running! Over a thousand applications were received – twice as many as in 2000 - in five very different fields, and the awards ceremony was held at the Welsh Slate Museum, Llanberis. A special supplement was published with The Western Mail during the National Eisteddfod in Denbigh, and there was also a chance to view the winning work at the Eisteddfod's Arts and Crafts Pavilion throughout the week. Once again this year, we succeeded in attracting sponsorship for the prizes from the Welsh Development Agency, Tesco, Nationwide, Camelot, Westdale Press, NatWest Wales and Hughes design company. We are pleased to report that the same companies have already agreed to continue their generous support for another year.



Enillydd y Wobr Pecynnu – Portmeirion a Gwasg Eryri

Winner of the Packaging Award – Portmeirion and Gwasg Eryri



Enillydd y Wobr Arwyddion – cyfres o arwyddion o amgylch yr Ardd Fotaneg yn Llanarthne (Peter Gill & Associates)

Winner of the Signage Award – a series of signs around the National Botanic Garden in Llanarthne (Peter Gill & Associates)



Enillydd y Wobr Hyrwyddo – Coleg Sir Gâr a Kneath Associates am brospectws y Coleg

Winner of the Promotion Award – Coleg Sir Gâr and Kneath Associates for the College prospectus



Peter Gill o Peter Gill & Associates, Elwyn Tudno Jones o Ardd Fotaneg Cymru gyda John Walter Jones

Peter Gill from Peter Gill & Associates, Elwyn Tudno Jones from the National Botanic Garden of Wales with John Walter Jones



Robin a Siân Llewelyn o Portmeirion gyda Janet Davies, Marcia Jones a Barry Owen o Wasg Eryri

Robin and Siân Llewelyn from Portmeirion with Janet Davies, Marcia Jones and Barry Owen from Gwasg Eryri



Robert Davies a Sandra Ellis yn cynrychioli Coleg Sir Gâr – enillydd y Wobr Hyrwyddo

Robert Davies and Sandra Ellis representing Coleg Sir Gâr – winner of the Promotion Award

Iaith Gwaith

Nod ein hymgyrch ddiweddaraf yw adeiladu ar ymwybyddiaeth y cyhoedd o'n cynllun *Iaith Gwaith* drwy:

- annog rheolwyr siopau, archfarchnadoedd, bwytai ac unrhyw sefydliad sy'n cynnig gwasanaeth wyneb yn wyneb i ddangos fod ganddyn nhw staff dwyieithog drwy wisgo bathodyn *Iaith Gwaith*;
- annog y cyhoedd i ddefnyddio gwasanaeth dwyieithog pan fydd ar gael; a thrwy hynny
- gynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg mewn sefyllfaoedd naturiol bob dydd.

Yn ystod pythefnos gyntaf Mawrth 2002, ymddangosodd hysbyseb deledu gyntaf y Bwrdd ar S4C fel rhan o'r ymgyrch. Roedd Tesco yn noddi'r hysbyseb, ac o ganlyniad i'r ymgyrch, cafwyd dros 150 o geisiadau am adnoddau - bron i 100 o'r rhain oddi wrth fusnesau oedd â mwy nag un aelod o staff yn siarad Cymraeg. Mae cwmnïau fel Burger King, Marks and Spencer, a Sainsbury wedi derbyn bathodynau *Iaith Gwaith* i'w staff ar raddfa leol, ac wedi dangos brwdfrydedd dros eu defnyddio.

Safoni Termau ac Enwau Lleoedd

Mae'r Bwrdd yn dal i ehangu ei waith yn y meysydd yma. Ddiwedd mis Hydref 2001, trosglwyddodd y Cynulliad ei gyfrifoldeb dros safoni enwau lleoedd i'r Bwrdd. (Dyma'r gwaith yr oedd y Pwyllgor Ymgynghorol ar Enwau Lleoedd yn ei wneud gynt.) Yn ogystal, comisiynodd y Bwrdd brosiect peilot gan Ganolfan Ymchwil Enwau Lleoedd Prifysgol Bangor, dan gyfarwyddyd yr Athro Hywel Wyn Owen. Cychwynwyd y gwaith ym mis Rhagfyr 2001. Mae'r Arolwg Ordnans a Chyngor Sir Powys hefyd yn rhan ohono. Ei bwrpas yw gosod canllawiau cyffredinol ar safoni enwau lleoedd, a chynghori ar ffurfiau dilys enwau lleoedd ym Maldwyn i ymddangos ar fapiau.

Iaith Gwaith

The aim of our latest campaign is to build on the public's awareness of our *Iaith Gwaith* scheme, by:

- encouraging the managers of shops, supermarkets, restaurants, and of any establishment which offers a face to face service, to make it known that they have bilingual staff by getting them to wear a *Iaith Gwaith* badge;
- encouraging the public to use bilingual services when available; and in so doing
- increase the use of the Welsh language in natural everyday situations.

During the first two weeks of March 2002, the Board's first television advertisement appeared on S4C as part of the campaign. The advertisement was sponsored by Tesco, and as a result of this campaign, we received over 150 applications for materials – nearly 100 of these from businesses which had more than one member of staff who spoke Welsh. Companies such as Burger King, Marks and Spencer, and Sainsbury have obtained *Iaith Gwaith* badges for their staff at a local level, and have been enthusiastic in using them.

Standardisation of Terms and Place-names

The Board continues to extend its work in these fields. At the end of October 2001, the National Assembly transferred its responsibility for the standardisation of place-names to the Board. (This work was previously carried out by the Place-names Advisory Committee.) Also, the Board commissioned a pilot project from Bangor University's Place-names Research Centre, under the direction of Professor Hywel Wyn Owen. The work started in December 2001. The Ordnance Survey and Powys County Council are also a part of the project. Its purpose is to establish general guidelines on the standardisation of place-names, and to advise on the valid forms of place-names in Montgomeryshire which will appear on maps.



Aeres Scourfield o NatWest Cymru, yn derbyn un o fathodynau enw newydd y cwmni yn cynnwys logo *Iaith Gwaith* oddi wrth Rhiannon Glynn, Rheolwr Uned Farchnata a Sector Preifat y Bwrdd

Aeres Scourfield, NatWest Wales, being presented with one of the company's a new name badges incorporating the *Iaith Gwaith* logo by Rhiannon Glynn, Manager of the Board's Marketing and Private Sector Unit



Derbyn Gwasanaeth Receiving Services

Ers i'r Bwrdd gael ei sefydlu, mae cynnydd mawr wedi bod yn y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg wrth dderbyn gwasanaeth. Yn y sector cyhoeddus, mae hyn wedi digwydd yn bennaf wrth i gynlluniau iaith statudol gael eu gweithredu. Yn y sector gwirfoddol, mae nifer o gyrff wedi efelychu hyn o'u gwirfodd, neu maen nhw wedi mynd ati i ddatblygu eu polisiau pendant eu hunain. Mae cynnydd gweladwy a chyson wedi bod yn y sector preifat hefyd, yn aml wrth i fusnesau wneud y penderfyniad cychwynnol ar eu liwt eu hunain.

Cynlluniau Iaith Gymraeg

Rhan o waith statudol y Bwrdd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 yw goruchwyllo cyrff cyhoeddus sy'n paratoi a gweithredu cynlluniau iaith. Pwrpas y cynlluniau yma yw darparu gwasanaeth safonol yn y Gymraeg, a thrin y Gymraeg yn gyfartal â'r Saesneg yng ngwaith y corff. Erbyn Mawrth 2002, mae cyfanswm o 190 cynllun iaith statudol wedi eu cymeradwyo, 32 ohonyn nhw yn ystod y cyfnod adrodd. Mae manylion llawn ar gyfer 2001-02 yn Atodiad 4; mae rhestrau o'r holl gyrff ar gael ar safle gwe'r Bwrdd.

Mae'r cynlluniau yma wedi arwain at gynnydd graddol mewn gwasanaethau a gweithgareddau Cymraeg gan gyrff o bob math. Mae'r cynnydd i'w weld nid yn unig mewn arwyddion a chyhoeddiadau, ond hefyd mewn gwasanaeth personol a chyswllt electronig. Mae hyn yn cynnwys cyrff sy'n gweithio o Loegr, sy'n cynnig gwasanaethau yn amrywio o basport symud gwartheg i lunio mapiau'r Arolwg Ordnans. Llwyddodd y rhain i oresgyn anawsterau ymarferol drwy gynnig llinell gyswllt Gymraeg, safle gwe, a gweithwyr maes dwyieithog. Am y tro cyntaf eleni, mae'r prawf gyrru cyflawn ar gael yn Gymraeg, felly hefyd y ffurflen gofrestru cerbyd.

Monitro ac Adolygu Cynlluniau

Rydym wedi parhau i fonitro gweithrediad y cynlluniau, er bod prinder adnoddau wedi ein rhwystro rhag bwrw ymlaen gyda'r gwaith i'r graddau y byddem yn ei ddymuno. Oherwydd hynny, rydym wedi bod yn edrych ar wahanol ffyrdd o resymoli ein hymwneud â'r agwedd yma. Ein nod yw gweld a yw'r gwasanaethau Cymraeg ar gael ac yn cael eu cynnig, ynghyd â pha mor gydwbybodol yw'r cyrff wrth fugeilio'r cynllun. Mae'r dulliau'n cynnwys:

Since the Board was established, there has been a large increase in the opportunities to use Welsh when receiving services. In the public sector, this has happened principally as statutory language schemes have been implemented. In the voluntary sector, many bodies have emulated this of their own volition, or they have sought to devise their own specific policies. There has also been visible and steady progress in the private sector, with businesses often taking the initial decision on their own initiative.

Welsh Language Schemes

Part of the Board's statutory work under the Welsh Language Act 1993 is to oversee public bodies which are preparing and implementing language schemes. The purpose of these schemes is to provide a quality service in the Welsh language, and to treat Welsh and English equally in the body's work. By March 2002, a total of 190 statutory language schemes had been approved, 32 of these during the reporting period. Full details for 2001-2 are provided in Annex 4; comprehensive lists of all the bodies are available on the Board's website.

These schemes have led to a gradual increase in Welsh language services and activities by organisations of all kinds. The increase is manifested not only in signs and publications, but also in personal services and electronic links. This includes bodies that work from England, which offer services ranging from passports for transporting cattle to the preparation of Ordnance Survey maps. These have succeeded in overcoming practical difficulties by providing a Welsh language helpline, a website, and bilingual field officers. For the first time this year, the full driving test is available in Welsh, as well as the vehicle registration form.

Monitoring and Reviewing Schemes

We have continued to monitor the implementation of language schemes, even though lack of resources has prevented us from pressing ahead with this work as quickly as we would have wished. Consequently, we have been looking at different ways of rationalising our involvement with this aspect of our work. Our aim is to discover whether Welsh language services are available and are being offered, as well as how conscientiously organisations are supervising their schemes. Our methods include:

"Rydym yn falch o'n hymrwymiad i ddwyieithrwydd ac i wasanaethu'n cwsmeriaid yn Saesneg neu yn Gymraeg yn ôl eu dymuniad. Mae rhoi gwasanaeth dwyieithog yn rhan bwysig o'n strategaeth i fancio yn y gymuned."

Nevil Davies,
Rheolwr Materion Cymunedol Cymreig, HSBC

"We are proud of our commitment to bilingualism and to serving our customers in either English or Welsh according to their preference. Providing a bilingual service forms an important part of our community banking strategy."

Nevil Davies,
Manager Community and Corporate Relations, HSBC

- derbyn a gwerthuso adroddiad blynyddol sy'n mesur cydymffurfiaeth a pherfformiad;
- cynnal detholiad o giparolygon perfformiad;
- dilyn cwynion;
- comisiynu adroddiadau ar agweddau neu feysydd gwasanaeth penodol.

Mae canlyniadau'r dulliau yma'n cael eu trafod gyda'r cyrff, fel sy'n briodol, er mwyn sbarduno cynnydd pellach a chadarnhau arferion da. Yn gyffredinol, mae'r gwaith monitro yn dangos cynnydd sylweddol mewn gwasanaeth Cymraeg dros y tair blynedd diwethaf, gyda mwyafrif y cyrff yn cymryd eu cyfrifoldeb o ddirif ac yn ymdrechu i wella a datblygu eu darpariaeth. Ond nid yw pob corff mor gydwytodol, ac mae rhai agweddau yn gryfach na'i gilydd. Er enghraifft, mae'r cynnydd mewn darpariaeth weledol (arwyddion, cyhoeddiadau o bob math, hysbysebion, ffurflenni) gryn dipyn yn well na'r cynnydd mewn gwasanaeth personol (wrth ffonio, wrth geisio cyngor, wrth holi am wybodaeth). Nid yw'r sector iechyd wedi dangos yr un lefel o gynnydd â'r prif sectorau gwasanaeth eraill, na'r un parodrwydd i geisio taelo'r gwendidau. Mae hyn bellach yn destun sylw gan Dasglu a sefydlwyd gan Weinidog Iechyd y Cynulliad, Jane Hutt AC, yn sgil cais gan y Bwrdd.

Cofrestru Genedigaethau a Marwolaethau

Os bydd genedigaeth neu farwolaeth yng Nghymru, mae hawl i gael tystysgrif ddwyieithog, ond nid felly os digwydd y tu allan i Gymru. Bu'r Bwrdd yn pwysu ar lywodraeth Prydain ers blynyddoedd am newid i'r Ddeddf gofrestru, er mwyn caniatáu hyn. Eleni, mae'r Llywodraeth bresennol wedi cadw at ei haddewid drwy gynnwys y newidiadau angenrheidiol mewn Papur Gwyn sy'n cyflwyno newidiadau sylfaenol yn yr holl drefn gofrestru ym Mhrydain. Yn wir, bydd modd cael tystysgrif Gymraeg yn unig o dan y drefn newydd.

- receiving and evaluating an annual report which measures compliance and performance;
- conducting a selection of snapshot surveys of performance;
- following up complaints;
- commissioning reports on attitudes or on specific service areas.

The findings from these methods are discussed as appropriate with the bodies concerned, in order to stimulate further progress and confirm good practice. Generally, our monitoring work has shown a substantial increase in Welsh language services over the past three years, with the majority of organisations taking their responsibilities seriously and seeking to improve and develop their provision. But not all organisations are as conscientious as this, and some aspects are stronger than others. For example, the increase in visual provision (signs, publications of all sorts, advertisements, forms) is much better than the increase in personal services (by telephone, in seeking advice, in asking for information). The health sector has not shown the same level of progress as the other main service sectors, nor the same willingness to tackle weaknesses. This area is now being considered by a Taskforce established by the Assembly's Health Minister, Jane Hutt AM, in response to a request from the Board.

Registration of Births and Deaths

If there is a birth or a death in Wales, one has the right to receive a bilingual certificate, but this is not the case if it happens outside Wales. For years the Board has been pressing the British government to change the registration Act to allow this. This year, the present Government has kept its promise, by including the necessary changes in a White Paper which introduces fundamental changes to the entire registration system in Britain. It will, in fact, be possible to receive a Welsh only certificate under the new system.

Y Sector Gwirfoddol

Wrth i fudiadau gwirfoddol ddatblygu gwasanaethau a gweithgareddau Cymraeg, daw galw cyson am gyngor ac arweiniad. Er mwyn ymateb i'r galw, buom yn gweithio gyda Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru i ddiweddarau'r ddogfen *O'n Gwirfodd*. Mae hon yn cynnig y cyngor diweddaraf ar gyfer mudiadau bach a mawr. Rydym hefyd wedi comisiynu dogfen arfer da fydd yn chwarae gyfrol i *O'n Gwirfodd*.

Buom yn gweithio â chroestoriad o fudiadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, a rhoddwyd cymeradwyaeth i chwe chynllun iaith yn ystod y cyfnod (gweler Atodiad 4). Buom hefyd yn hybu'r prosiect *Estyn Llaw*, sy'n ceisio cynyddu gweithredu cymunedol a gwirfoddoli drwy gyfrwng y Gymraeg yng Ngorllewin Cymru.

Y Sector Preifat

Mae hwn yn sector pwysig iawn, ond yn anffodus mae adnoddau annigonol wedi ein llesteirio rhag ateb y galw'n llawn. Mae mwy a mwy o gwmnïau preifat yn dod atom i chwilio am gymorth i ddatblygu eu defnydd o'r Gymraeg. Maen nhw'n gofyn hefyd am gyngor ar sut i gynhyrchu adnoddau dwyieithog - fel arwyddion a thafenni - fydd yn llwyddo i gyfleu delwedd fodern a dwyieithog i'w cwmnïau. Yn ogystal, yn ystod y cyfnod adrodd, mae nifer o gwmnïau preifat wedi bod yn cydweithio gyda'r Bwrdd o'u gwirfodd i greu cynlluniau iaith ac i ddatblygu gwasanaethau dwyieithog.

Agwedd bwysig arall o'n gwaith yw cydweithio gyda mudiadau cenedlaethol, fel y Ffederasiwn Busnesau Bychain a'r Ffatri Fenter, i ddefnyddio'r cysylltiadau da sydd ganddyn nhw i gysylltu'n uniongyrchol â busnesau. Yn 2002-03, mae'r Bwrdd yn bwriadu cynyddu ei waith gyda'r sector preifat drwy gynnal ymgyrchoedd penodol i dargedau'r sector.

Marchnata Dwyieithog mewn Ieithoedd Lleiafrifol

Ym mis Mehefin 2001, cafodd gweithdy rhyngwladol ar farchnata mewn ieithoedd lleiafrifol ei gynnal ym Mhortmeirion. Daeth cynrychiolwyr o ddeg cymuned ieithyddol o Ewrop ynghyd i drafod a rhannu profiadau. Canlyniad y gweithdy oedd cynhyrchu canllawiau i fusnesau ar farchnata dwyieithog. Caiff y rhain eu cyhoeddi'n fuan ar y we mewn pum iaith Ewropeaidd. Ariannwyd y gwaith drwy grant o'r Comisiwn Ewropeaidd.

The Voluntary Sector

As voluntary bodies develop their Welsh language services and activities, there is a steady demand for advice and guidance. To meet this demand, we have been working with the Wales Council for Voluntary Action to update the document *As Good As Our Words*. This offers the latest advice to both small and large bodies. We have also commissioned a good practice document that will form a companion volume to *As Good As Our Words*.

We have been working with a cross-section of local, regional and national bodies, and during the period we have given approval to six language schemes (see Annex 4). We have also been promoting the *Estyn Llaw* project, which seeks to increase community action and volunteering through the medium of the Welsh language in West Wales.

The Private Sector

This is a very important sector, but unfortunately insufficient resources have prevented us from meeting the demand in full. More and more private companies are approaching us for help in developing their use of Welsh. They also ask for advice on how to produce bilingual materials - such as signs and leaflets - that will give their company a modern, bilingual image. In addition, during the reporting period, several private companies have been working with the Board of their own volition to produce language schemes and develop bilingual services.

Another important aspect of our work is working together with national organisations, such as the Federation of Small Business and Ffatri Fenter, to make use of their effective links to contact businesses directly. In 2002-03, the Board intends to expand its work with the private sector by conducting specific campaigns to target the sector.

Bilingual Marketing in Minority Languages

In June 2001, an international workshop on marketing in minority languages was held at Portmeirion. Representatives from ten European linguistic communities came together to discuss and share their experiences. The workshop led to the production of guidelines for businesses on bilingual marketing which will be published soon on the web in five European languages. This work was funded by a grant from the European Commission.



Hysbyseb Iaith Gwaith – S4C Mawrth 2002
Iaith Gwaith Advert – S4C March 2002



Siân-Elin Jones, Rheolwr, Materion Cymunedol Cymreig HSBC, a John Walter Jones yn lansio cyfriflenni banc Cymraeg newydd y cwmni yng Nghlwb Hwyllo Bae Caerdydd, Medi 2001

Siân-Elin Jones, Manager, Welsh Community Affairs HSBC, with John Walter Jones launching the company's new Welsh language bank statements at the Cardiff Bay Yatch Club, September 2001



Aelodau'r gweithdy Marchnata mewn Ieithoedd Lleiafrifol a gynhaliwyd yn Mhortmeirion yn mis Mehefin 2001
Members of the workshop on Marketing in Minority Languages which took place in Portmeirion in June 2001



Bathodyn "Rwy'n dysgu Cymraeg"
"I'm learning Welsh" badge

Hamdden Leisure

Mae ystyried beth maen nhw'n mynd i'w wneud yn eu hamser hamdden yn dod yn gynyddol bwysig i bobl. Ac mae defnyddio'r Gymraeg wrth hamddena llawn mor bwysig i'r rhan fwyaf ohonom â'i defnyddio mewn sefyllfaoedd mwy ffurfiol. Rhaid cofio hefyd fod mwy a mwy o bobl yn mynd ati i ddysgu Cymraeg yn eu hamser hamdden. Mae'r Bwrdd yn ceisio sicrhau – drwy waith y mentrau iaith, yr Urdd, ac eraill - fod pob cefnogaeth ar gael i bawb sydd am fwynhau gweithgareddau hamdden drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cymraeg i Oedolion

Roedd dros 21,000 o ddysgwyr wedi cofrestru ar gyrsiau Cymraeg i Oedolion yn ystod y flwyddyn. Parhaodd y Bwrdd i chwarae rhan flaenllaw yn y maes, o ran ei gydlynw'n genedlaethol. Ym mis Hydref 2001, bu'r Bwrdd yn rhan o ymgyrch S4C i hybu cyfres deledu newydd ar gyfer dysgwyr, *Welsh in a Week*. Yn sgil y gyfres, buom yn cydweithio gyda S4C, y Western Mail, Fflic ac ACEN i greu pecyn arbennig i ddysgwyr. Bu'r ymgyrch yn llwyddiannus, ac anfonwyd dros 3,500 o becynnau i ddarpar ddysgwyr yn ystod y cyfnod ymgyrchu.

Ym mis Ionawr 2002, cynhaliwyd ymgyrch recriwtio i geisio denu pobl i ddod yn diwtoriaid Cymraeg i Oedolion. Roedd yr ymateb yn dda, a sefydlwyd cronfa ddata o enwau dros gant o bobl a ddangosodd ddiddordeb mewn derbyn hyfforddiant i ddod yn diwtoriaid.

Planning what to do in our leisure time is becoming increasingly important in our lives. And using Welsh in our leisure activities is just as important to most of us as using it in more formal situations. It must also be borne in mind that increasing numbers of people are learning Welsh in their leisure time. The Board is seeking to ensure – through the work of the mentrau iaith, the Urdd, and others - that every support is available to those wishing to enjoy their leisure activities through the medium of Welsh.

Welsh for Adults

During the year over 21,000 learners registered on Welsh for Adults courses. The Board continued to play a prominent national co-ordinating role in this area. In October 2001, the Board took part in an S4C campaign to promote a new television series for learners, *Welsh in a Week*. Following the series, we collaborated with S4C, The Western Mail, Fflic and ACEN to produce a special pack for learners. The campaign was a success, and 3,500 packs were sent to prospective learners during the campaign period.

In January 2002, a recruitment campaign was conducted to seek to persuade people to become Welsh for Adults tutors. The response was good, and a new database was set up containing the names of over a hundred people interested in receiving training to become tutors.



"A large number of Welsh people have discovered the value of the language. For some, it is a matter of defining who they are; for others, it is a matter of ensuring that their children are not deprived in the same way as they were; for others there is an economic advantage in being bilingual; and for some it is a matter of belonging to the community that they live in."

Rhodri Williams,
The Prospects for the Welsh Language

"Mae nifer fawr o Gymry wedi darganfod gwerth yr iaith. I rai, mae'n fater o ddiffinio pwy yn nhw; i eraill mae'n fater o sicrhau nad yw eu plant yn cael eu hamddifadu yn yr un modd ag yr amddifadwyd nhw; i eraill mae yna fantais economaidd yn perthyn i ddwyieithrwydd; ac i eraill mae'n fater o berthyn i'r gymuned ma' nhw'n byw ynddi."

Rhodri Williams,
Rhagolygon yr Iaith



Dilwyn Jones, o Cered (Menter Iaith Ceredigion) yn cyflwyno tystysgrif Bwydlen Ddwylieithog y Mis i Delyth Jones, perchennog Y Pantri, Llanbedr Pont Steffan

Dilwyn Jones from Cered (Menter Iaith Ceredigion) presenting a Bilingual Menu of the Month certificate to Delyth Jones, owner of Y Pantri, Lampeter




John Walter Jones yn cyflwyno tystysgrif i Gill Goddard, Dysgwr y Flwyddyn Heddlu Gogledd Cymru. Dirprwy Brif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru, Bill Brereton yn cyflwyno tystysgrif pencampwr iaith Gymraeg i'r Cwnstabl Ifan Hughes

John Walter Jones presenting a Learner of the Year certificate to Gill Goddard, North Wales Police. Deputy Chief Constable Bill Brereton, North Wales Police, presenting a Welsh language championship certificate to Constable Ifan Hughes



Lawns y llyfr *Dulliau Dysgu Ail Iaith* gan Ioan Talfryn o Ganolfan Popeth Cymraeg ym Mhabell y Dysgwyr Eisteddfod Genedlaethol Dinbych 2001

Launching *Dulliau Dysgu Ail Iaith* by Ioan Talfryn of Welsh Unlimited at the Learners' Pavilion Denbigh National Eisteddfod 2001



Eisteddfod Genedlaethol

Derbyniodd yr Eisteddfod Genedlaethol – un arall o'n prif bartneriaid - grant o £276,000 yn ystod y flwyddyn o dan y Prif Gynllun Grantiau. Ac, er gwaethaf y pryderon ymlaen llaw oherwydd clwy'r traed a'r genau, roedd yr ŵyl yn Ninbych yn llwyddiant.

Roedd presenoldeb y Bwrdd yno'n llwyddiannus hefyd. Rhoddodd ein stonddin arddangos gyfle inni rannu peth o'n gwaith a'n cyhoeddiadau gyda chynulleidfau bwysig, ac i glywed barn aelodau o'r cyhoedd yn uniongyrchol. Ac fel y nodwyd yn barod, roedd arddangosfa o waith buddugol y Gwobrau Dylunio Dwyieithog yn y Pafiliwn Celf a Chrefft. Ond y prif ddatblygiad eleni o ran y Bwrdd oedd noddi stonddin Cymraeg i Oedolion ym Mhafiliwn y Dysgwyr. Yn ogystal, trefnwyd dau lawns gennym: llyfr Ioan Talfryn i diwtoriaid, *Dulliau Dysgu Ail Iaith, a'n llyfr yn ein hunain, All you need to know about learning Welsh (but were too afraid to ask).*

Y Gymraeg mewn Busnesau Arlwyio

Rydym wedi parhau i ddatblygu nifer o ymgyrchoedd marchnata i dargedu meysydd penodol o fewn y sector preifat, yn arbennig y diwydiant arlwyio a thwristiaeth. Yn ystod y cyfnod adrodd, aeth ein cynllun Bwydlen Ddwieithog y Mis o nerth i nerth. Cawsom enwebiadau ar gyfer y gystadleuaeth gan aelodau o'r cyhoedd o bob rhan o Gymru. Roedd yr enillwyr hefyd yn amrywiol iawn - o Pizza Hut yng Nghyffordd Llandudno i Westy Castell Deudraeth ym Mhortmeirion. Mae'r cyllun yn cynnig cyfle gwerthfawr i fusnesau arlwyio godi eu proffil. Yn ogystal, rydym wedi cynhyrchu sticer ffenest er mwyn i unrhyw sefydliad allu cyhoeddi ei fod yn cynnig bwydlen ddwyieithog i'w gwsmeriaid.

Rydym hefyd wedi bod yn cydweithio gydag Awdurdod Datblygu Cymru i annog cynhyrchwyr bwyd i becynnu eu cynnyrch yn ddwyieithog, ac i'w perswadio o'r manteision masnachol o wneud hynny.

Cyhoeddi yn y Gymraeg

Rhoddodd y Bwrdd grant o £623,704 i Gyngor Llyfrau Cymru yn 2001-02 ar gyfer cyhoeddi llyfrau, cylchgronau a deunyddiau eraill. Ond yn ystod y cyfnod adrodd, penderfynodd Llywodraeth Cymru sefydlu Grŵp i edrych ar symleiddio'r ffordd yr oedd y Cyngor yn cael ei ariannu, gan fod y Cyngor wedi bod yn derbyn arian gan awdurdodau lleol a'r Cynulliad Cenedlaethol, yn ogystal â'r Bwrdd. Bellach mae'r Llywodraeth wedi derbyn argymhelliaid y Grŵp y dylid ariannu'r Cyngor o un ffynhonnell. Felly, o 2002-03 ymlaen, bydd y Cynulliad ei hunan yn ariannu'r Cyngor yn gyfan gwbl.

The National Eisteddfod

The National Eisteddfod – another of our main partners – received a grant of £276,000 during the year under the Main Grants Programme. And in spite of prior concerns as a result of the foot and mouth outbreak, the festival in Denbigh proved a success.

The Board's presence was also successful. Our exhibition provided us with an opportunity to share some of our work and publications with an important audience, and to hear the views of members of the public face-to-face. And as already mentioned, there was an exhibition of the winning entries from the Bilingual Design Awards in the Arts and Crafts Pavilion. However, the main development this year for the Board was sponsoring the Welsh for Adults exhibition in the Learners' Pavilion. We also arranged two launches: Ioan Talfryn's book for Welsh language tutors, *Dulliau Dysgu Ail Iaith*, and our own booklet, *All you need to know about learning Welsh (but were too afraid to ask).*

Language in the Hospitality Sector

We continued to develop a number of marketing campaigns targeted at specific areas within the private sector, in particular the catering and tourism industry. During the reporting period, our Bilingual Menu of the Month scheme went from strength to strength. We received nominations for the competition from members of the public from every part of Wales. There was a wide range of winners – from Pizza Hut in Llandudno Junction to the Castell Deudraeth hotel at Portmeirion. The scheme provides a valuable opportunity for catering businesses to raise their profile. In addition, we have produced a window sticker so that any establishment can show that it offers a bilingual menu to its customers.

We have also been working with the Welsh Development Agency to encourage food producers to package their produce bilingually, and to persuade them of the ensuing commercial advantages.

Publishing in Welsh

